



## Sgiliau'r Dyfodol: Ymgynghoriad ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a Bagloriaeth Uwch Cymru

Rydym wedi lansio ymgynghoriad ar newidiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (THS) a Bagloriaeth Uwch Cymru.

Er mwyn ein helpu i adeiladu ar gryfderau'r hyn sydd gennym nawr, rydyn ni eisiau eich barn ar y newidiadau arfaethedig. Eu nodau yw:

- adeiladu ar gryfderau'r cymhwyster presennol wrth gefnogi mynediad i addysg uwch;
- cefnogi ymgysylltiad a lles dysgwyr;
- osgoi dyblygu dysgu ac asesu blaenorol a gwneud y cymhwyster yn fwy hydrin i ddysgwyr a chanolfannau;
- rhoi rhyddid i ddysgwyr ddewis yr hyn maen nhw'n ei astudio;
- a symleiddio'r cymhwyster i'w gwneud yn haws esbonio ei ddiben a'i werth.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am wyth wythnos tan hanner dydd **ddydd Gwener 13 Tachwedd 2020**. Gallwch weld tudalen we'r ymgynghoriad [yma](#).

### Llythyr at randdeiliaid, 17 Medi

Ar 17 Medi, gwnaethom anfon llythyr at benaethiaid canolfannau, yn amlinellu:

- manylion cyhoeddiadau sydd i ddod ynghylch haf 2020;
- gweithgareddau mewn perthynas ag addasiadau ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yn haf 2021;
- gwybodaeth am ein rhaglen barhaol o waith adolygu a diwygio.

Gallwch ddarllen y llythyr [yma](#).



## Haf 2021

Mae dyfarnu cymwysterau yn haf 2021 yn flaenoriaeth i ni. Byddwn yn ymgynghori cyn bo hir ynghylch y ffordd orau o wneud hyn, ac yn cyhoeddi amserlen o ddigwyddiadau a fydd yn cefnogi ein ffordd o feddwl.

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda'n holl randdeiliaid, a byddwn yn diweddarau ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol gyda'r newyddion diweddaraf am haf 2021 pan fydd ar gael.

## Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig – cymwysterau newydd i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2021

Dim ond 12 mis sydd i fynd cyn addysgu cymwysterau newydd am y tro cyntaf ar gyfer y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, gan gynnig llwybrau dilyniant gwell i ddysgwyr i gyflogaeth.

Mae'r cymwysterau newydd yn cael eu datblygu ar y cyd â'r diwydiant i'w helpu i ddiwallu anghenion y sector adeiladu a gwasanaethau adeiladu heddiw. Byddant yn galluogi gweithwyr i ddeall rôl technolegau newydd yn y sector ac i gynnal a chadw ac atgyweirio'r adeiladau a strwythurau traddodiadol sydd gennym yng Nghymru.

Fel rhan o'n cyfranogiad, rydym wedi bod yn siarad â nifer o bobl ifanc sy'n dechrau ar eu gyrfaedd dewisol yn y diwydiant, yn ogystal â chyflogwyr. Gallwch ddarllen mwy am yr hyn a wnânt [yma](#).



## Recriwtio i'r Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn darparu llywodraethu cryf ac arweinyddiaeth effeithiol; mae'n datblygu'r cynllun strategol ar gyfer Cymwysterau Cymru ac yn gosod amcanion heriol i ni fel sefydliad.

Ar hyn o bryd, mae gennym nifer o swyddi gwag ar gyfer aelodau'r Bwrdd; os oes gennych gefndir mewn rheoleiddio, asesu neu reoli busnes, hoffem glywed gennych. Os ydych am wybod mwy am ymuno â ni, gwylwch ein [fideo](#) i gael gwybod beth sydd gan aelodau presennol i'w ddweud am eu rolau.

Gellir gweld gwybodaeth am y rolau a sut i ymgeisio [yma](#).

Y dyddiad can ar gyfer ceisiadau yw **16 Hydref 2020**.

# Datblygu Meini Prawf Cymeradwyo TAG Safon UG/Uwch Technoleg Ddigidol

Un o'r camau gweithredu a nodwyd yn ein hadolygiad o gymwysterau a'r system gymwysterau yn y sector technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, *Digidol i'r Dyfodol*, oedd datblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster TAG Safon UG/Uwch Technoleg Ddigidol newydd, a oedd ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2022.

Ym mis Hydref, byddwn yn cynnal dau weminar, lle byddwn yn crynhoi ein cynigion ar gyfer y cymhwyster newydd hwn ac yn caniatáu i'r rhai sy'n bresennol ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am y meini prawf cymeradwyo.

I weld mwy o wybodaeth ac i gadw lle mewn un o'r gweminarau, ewch i'n [gwefan](#).

## Recriwtio

Rydym yn recriwtio ar gyfer y swyddi gwag canlynol:

### Rheolwr Cymwysterau (£39,310 - £47,000 y flwyddyn)

**Dyddiad cau: dydd Gwener 2 Hydref, 10am**

Mae Rheolwyr Cymwysterau yn chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o adolygu a diwygio cymwysterau, a byddant yn ymgymryd â gwaith ymgysylltu ar lefel uchel â chyflogwyr, cyrff cyflogwyr, arbenigwyr pwnc ac arbenigwyr proffesiynol, darparwyr dysgu a chyrrff dyfarnu.

Mae'r swydd-ddisgrifiad llawn ar gael [yma](#).

### Swyddog Cymwysterau (£30,600 - £37,410 y flwyddyn)

**Dyddiad cau: dydd Iau 1 Hydref, 5pm**

Mae cyfleoedd wedi codi i un Swyddog Cymwysterau parhaol a dau Swyddog Cymwysterau cyfnod penodol yn ein Cyfarwyddiaethau Polisi a Diwygio a Rheoleiddio Cymwysterau.

Bydd un rôl o fewn y Gyfarwyddiaeth Polisi a Diwygio Cymwysterau yn gofyn am siaradwr Cymraeg rhugl.

Mae'r swydd-ddisgrifiad llawn ar gael [yma](#).

### Rheolwr Cyllid (£39,310 - £47,000 y flwyddyn)

**Dyddiad cau: dydd Mawrth 29 Medi, 5pm**

Mae hon yn swydd cyfnod penodol am 18 mis – 2 flynedd, gyda'r posibilrwydd o gael swydd barhaol.

Rydym yn bwriadu ail-dendro ei system gyllid ac Adnoddau Dynol. Bydd hyn yn arwain at naill ai ddiwygiadau i'r system bresennol neu weithredu system newydd. Mae angen uwch gapasiti ychwanegol i alluogi cyflawni hyn ochr yn ochr â chynllun busnes heriol.

Mae'r swydd-ddisgrifiad llawn ar gael [yma](#).

I weld rhagor o wybodaeth am y rolau hyn, a sut i ymgeisio, ewch i'n [gwefan](#).

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

**The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector**  
**Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg**

You can follow us on social media for the latest news on our work:  
Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:



*Copyright © 2020 Qualifications Wales All rights reserved.*

**Contact us:**

[comms@qualificationswales.org](mailto:comms@qualificationswales.org)

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.